Datblygu a Ganiateir
Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Anogir ymatebwyr i gyflwyno eu hymatebion ar-lein: https://www.smartsurvey.co.uk/s/5RJZZK/?lang=615410.

Fel arall, cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon drwy e-bost at planconsultations-e@llyw.Cymru.

Eich enw: [redacted]

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

E-bost/rhif ffôn: [redacted]

Eich cyfeiriad: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF

C.1	**A ddylid cadw'r diwrnodau ychwanegol a roddwyd gan Ddosbarth A yn Rhan 4A yn barhaol, gan ganiatáu defnyddiau dros dro am hyd at 56 diwrnod (28 diwrnod at ddibenion penodedig) mewn blwyddyn galendr?**		
	Dylid ☐	**Na ddylid** ☒	**Arall** ☐
	Sylwadau: Mae'r diwrnodiau ychwanegol hyd at 56/28 diwrnod wedi arwain at effeithiau andwyol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae meysydd gwersylla o fewn Parc Cenedlaethol Eryri wedi defnyddio'r hawl 56 diwrnod yn ystod 2021. Yn nhermau monitro a gorfodaeth, mae 56 diwrnod yn amhosib rheoli gyda'r adnoddau presennol (mae monitro 28 diwrnod yn heriol, heb son am 56). Mae potensial ipebyll, ceir y gwersyllwyr a'r cyfleusterau cael effaith andwyol ar gymeriad a thirlun y Parc Cenedlaethol. Maent yn effeithio ar fwynderau trigolion cyfagos. Mae'r mynediad i'r briffordd yn medru bod yn beryglus ac mae yn cynyddu pwysedd traffig ar ffyrdd cul. Un o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ydi'r cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn actif, tra'n cynnal ardaloedd o lonyddwch ac unigedd, a thrwy hynny hyrwyddo agweddau o iechyd, lles a hunan fyfyrdod. Gall cynnydd yn feysydd gwersylla yn defnyddio 56 diwrnod mynd yn groes i'r rhinwedd yma drwy gynyddu gweithgareddau, symudiadau traffig ayb.		

Ni ddylid cynnwys Parciau Cenedlaethol o fewn yr hawliau ychwanegol am ei fod yn ardal sensitif i bwysedd gan dwristiaeth. Mae'r Parc Cenedlaethol a ChyngorGwynedd yn cyd-baratoi Strategaeth Twristiaeth Cynaladwy, a fydd yn stratefol bwysig ac yn bwydo mewn i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Mae'r potensial i'r estyniad hyd at 56 diwrnod wrthdaro gdya'r amcanion o dwristiaeth cynaladwy. Mae rhai ardaloedd yn y Parc wedi profi pwysedd sylweddol gan dwristiaeth dros y ddwy flynedd diwethaf, lle nad yw'r amgylchedd a'r isadeiledd yn medru ymdopi gyda'r niferoedd.

Mae cynyddu'r cyfnod i 56 diwrnod yn arwain at fwy o gyfleusterau, megis unedau ymolchi ayb, sydd hefyd yn cael effaith weledol ar y tirlun. Mi fydd hefyd yn anochel y bydd yn arwain at gynnydd mewn datblygiadau gweithredol diawdurdod, megis traciau, lleiniau caled a chyfleusterau. Mi fydd defnydd hirach o 56 hefyd yn annog rhai tirfeddianwyr i ddymuno caniatâd cynllunio am safle gyda chyfnod hirach, parhaol. Ni fydd hyn yn bosib ym Mharc Cenedlaethol Eryri am nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cefnogi unrhyw safle gwersylla newydd, dros dro, tymhorol neu parhaol.

Mi all rhai safleoedd gwersylla dros dro ycael euleoli mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif, megis tu fewn neu gerllaw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardal Cadwraeth Arbennig, yn cynnwys cyrsiau dwr ac afonydd.

Nid yw 'Part 4A, Class A' yn caniatáu rhai mathau o ddefnydd tir o dan rhai amgylchiadau, megis os ydyw o fewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu du fewn i Barc Cenedlaethol. Er hyn, nid ydi defnydd fel maes gwersylla wedi cynnwys. Mae safle gwersylla yn dod a pheryglon o lygredd o'r cyfleusterau ymolchi a cheir ar y safle, ac mae perygl o lygru afonydd a safleoedd dynodedig megis SoDdGA ac AAC. Ni ddylid caniatáu maes gwersylla os ydyw tu fewn i SoDdGA neu AAC. Nodir hefyd pryderon am effaith cynyddol ar ffosffadau o fewn afonydd gyda chynnydd mewn meysydd gwersylla a chyfleusterau ymolchi.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaetho Eryri y gwrthwyndebu yn gryf yr hawl i gynyddu'r defnydd o rasio/ymarfer ceir a beiciau modur o 14 i 28 diwrnod. Mae'r defnydd yn niweidio cynefinoedd gwerthfawr megis mawn, rhostir a chorsydd, ac mi fydd cynyddu'r defnydd i 28 yn arwain at niwed llawer mwy sylweddol a pharhaol. Mae'r defnydd yn cynhyrchu sŵn ac yn amharu ar yr awyrgylch a llonyddwch y Parc Cenedlaethol. Mae'r Parc wedi profi niwed i gynefinoedd a henebion o ddefnydd gan geir a moduron ceir a motor beic traws gwlad, a gwrthwynebwyr cynyddu eu hawliau defnydd tir dros dro.

C.2	**A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynghylch unrhyw fanteision ac effeithiau o ganlyniad i gyflwyno'r diwrnodau ychwanegol ar gyfer defnyddiau dros dro ers mis Ebrill? Os oes, rhowch fanylion.**		
	Oes ☐	**Nac oes** ☐	**Arall** ☐
	Sylwadau: Yn ystod haf 2021 derbynniodd Parc Cenedlaethol Eryri pryderon gan drigolion sydd yn byw yn gyfagos i faes gwersylla a oedd yn defnyddio'r hawl 56 diwrnod. Mae'r safle ar ddarn dir o fewn pentref, a gyda thai yn agos, ac mae sŵn ar oriau anghymdeithasol wedi effeithio yn andwyol ar fwynderau' trigolion. Nid ydi pob safle gwersylla sydd yn defnyddio'r hawl o reidrwydd yng nghefn gwlad.		

C.3	**A oes gennych farn ynghylch a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar ddefnyddio'r hawl datblygu a ganiateir hon i liniaru effeithiau posibl gwneud hyn yn barhaol? Os oes, rhowch fanylion.**		
	Oes ☐	**Nac oes** ☐	**Arall** ☐
	Sylwadau: Ni ddylai'r hawliau ychwanegol o dan 'Part 4A' diwrnod cael eu gweithredu o gwbl mewn Parciau Cenedlaethol, sef tir o fewn tir 'Article 1(5)'. Os weithredir o fewn Parc Cenedlaethol: Ychwanegu maes gwersylla i'r rhestr o ddefnyddiau na chaniateir o dan A1 e) Gwahardd yr 14 diwrnod ychwanegol i rasio/ymarfer moduron os ydyw o fewn Parc Cenedlaethol.		
C.4	**A ddylid estyn nifer y diwrnodau ar gyfer cynnal marchnad yn gyffredinol? Os dylid, beth yw nifer derbyniol o ddyddiau ar gyfer cynnal marchnad? Pa amodau ddylai fod yn berthnasol i reoli'r effeithiau ar gynllunio?**		
	Dylid ☒	**Na ddylid** ☐	**Arall** ☐

	Sylwadau: Dim pryderon am estyn y nifer o ddiwrnodiau i 28. Mi fydd o gymorth i fasnachwyr, chrefftwyr a ffermwyr lleol.

C.5	**A ddylid rhoi unrhyw ddiwrnodau ychwanegol dros y 14 diwrnod a ganiateir ar gyfer marchnadoedd a weithredir gan neu ar ran awdurdod lleol?**		
	Dylid ☒	**Na ddylid** ☐	**Arall** ☐
	Sylwadau: Dim sylwadau		

C.6	**A ydych yn cytuno y dylai'r newidiadau a ganiateir o ran defnydd yng nghanol trefi ddod yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.**		
	Ydw ☐	**Nac ydw** ☐	**Arall** ☒
	Sylwadau: Nid ydi'r Parc Cenedlaethol wedi derbyn yr un rhybudd o flaen llaw am newid defnydd o dan yr hawl yn ystod 2021, ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw eiddo sydd wedi defnyddio'r hawl. Dros y blynyddoedd diwethaf, yng nghanol rhai trefydd yn Eryri collwyd rhai unedau manwerthu i ddefnydd arall. Gall hyn niweidio bywiogrwydd economaidd a hyfywedd ardaloedd manwerthu. Am y rheswm yma, nid ydi polisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cefnogi newid defnydd o A1 i A2 neu A3, heblaw y gellir dangos nad yw'r defnydd A1 yn hyfyw. Yn ganlynol, ni all yr Awdurdod gefnogi cais cynllunio am newid parhaol, wedi i'r cyfnod dros dro dod i ben (oni bai gellir profi nad yw'n hyfyw). Mae'r ffurf mae pobl yn defnyddio canol trefi yn newid. Mae angen fwy o ymchwil i mewn i hyfywedd ein trefi, ac i asesu effaith Brexit a Covid, i weld os oes angen newid cyfeiriad y polisi sydd yn gwarchod defnydd A1 dros eraill. Os ydi'r elfen A1 ddim bellach yn hyfyw, yna fe ellir ystyried newid ym mhwyslais y polisi. Mi fydd ymchwil yn bwydo mewn i'r adolygiad nesaf o'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf.		

C.7	**A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio ffordd sy'n gyfagos i safle lletygarwch at yr un diben yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.**		
	Ydw ☐	**Nac ydw** ☐	**Arall** ☒

	Sylwadau: Mae'r Parc yn gefnogol i'r hawl er mwyn hwyluso gweithgareddau busnes. Er hyn, credir dylai fod eithriad i'r hawl o fewn ardaloedd chadwraeth ac o fewn cwrtil adeilad rhestredig. Credir bod potensial i niweidio eu cymeriad hanesyddol a phensaernïol, ac mi fydd derbyn cais yn galluogi asesiad o'r effaith.

C.8	**Os ateboch chi ydw i C.7, a oes angen unrhyw amodau ychwanegol i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar amwynder?**		
	Sylwadau: Ni ddylai'r hawl cael eu gweithredu o fewn Ardal Cadwraeth am na ellir sicrhau y bydd yn gwarchod a gwella'r cymeriad.		

C.9	**A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer gosod adlenni at ddibenion lletygarwch yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.**		
	Ydw ☐	**Nac ydw** ☐	**Arall** ☒
	Sylwadau: Dim sylwad, gan nad yw'r hawl yn berthnasol i dir o fewn Parc Cenedlaethol.		

C.10	**A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 3A?**		
	Oes ☐	**Nac oes** ☒	**Arall** ☐
	Sylwadau:		

C.11	**A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 12A?**		
	Oes ☐	**Nac oes** ☒	**Arall** ☐
	Sylwadau:		

C.12	**A ydych yn cytuno na ddylai tai amlfeddiannaeth elwa ar hawliau datblygu a roddwyd gan Ran 1 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sy'n caniatáu addasiadau ac estyniadau i**

	dŷ annedd? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.
	Ydw ☒ **Nac ydw** ☐ **Arall** ☐
	Sylwadau:

C.13	**A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddosbarth F? Os nad ydych, awgrymwch ddulliau, cyfyngiadau neu drothwyon eraill y gellid eu mabwysiadu.**
	Ydw ☒ **Nac ydw** ☐ **Arall** ☐
	Sylwadau: Cytuno gyda'r egwyddor. Mi fydd yn arwain at gynnydd mawr mewn ceisiadau cynllunio ag achosion gorfodaeth; mi fydd yr Awdurdod angen adnoddau a staff ychwanegol i ddelio gyda'r pwysau gwaith. Mi fydd y Parc Cenedlaethol yn ddibynnol ar gyngor gan yr Awdurdodau Lleol am faterion draenio.

C.14	**A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o hyblygrwydd drwy hawliau datblygu a ganiateir i gyflymu'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.**
	Ydw ☒ **Nac ydw** ☐ **Arall** ☐
	Sylwadau: Mae pryder am yr uchder o 2.5m. Gall hyn creu effaith weledol sylweddol ar dirlun a chymeriad y Parc Cenedlaethol. Pa reswm sydd i'r fath uchder? Gall uchder o 2.5m hefyd achosi effaith niweidiol i ardaloedd chadwraeth. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Warchodfa Awyr Dywyll. Rhoddir y dynodiad i'r ardaloedd arwahanol hynny sydd wedi profi bod ansawdd eu hawyr nosol yn rhagorol ac mae'r ardaloedd hynny wedi dangos bod ymdrechion gwirioneddol yn cael eu gwneud i leihau llygredd golau ymwthiol. Ymwrthodir effeithiau annerbyniol ar yr awyr dywyll. Mi all y pwyntiau gwefru cynnwys goleuo anaddas. Awgrymir bod angen amod pellach yn datgan y dylai unrhyw oleuo fod ar gyfer pwrpasau gweithredol yn unig, e.e., y sgrin, a bod rhaid defnyddio 'downlights' ayb. Gellir mynnu bod y golau arnynt wedi amseru i ddiffodd yn awtomatig ar ôl eu defnyddio. Neu, awgrymir fel opsiwn arall nad yw'r hawl yn berthnasol i Barciau Cenedlaethol neu y tu fewn Warchodfa Awyr Dywyll. Gellir felly sicrhau bod y goleuo yn addas drwy cais cynllunio ag amodau.

C.15	A ydych yn cytuno ag ailgyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer diogelu dofednod ac adar caeth eraill?		
	Ydw ☒	Nac ydw ☐	Arall ☐
	Sylwadau:		

C.16	A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer diwygio cyfarwyddiadau Erthygl 4?		
	Ydw ☒	Nac ydw ☐	Arall ☐
	Sylwadau: Cytuno bod angen symleiddio'r broses o fabwysiadu cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae'r Awdurod wedi ymateb yn fanwl i'r defnydd o gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli newid defnydd rhwng tai parhaol/ail gatref/llety gwyliau tymor byr yn yr ymgynghoriadar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr (Rhagfyr 2021)		

C.17	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
	Sylwadau:

C.18	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.
	Sylwadau:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y

rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐